CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 17eg IONAWR 2023.

PRESENNOL:
Cyng J Evans (Cadeirydd) D T Roberts (Is-Gadeirydd) Ms N Dafydd, J E Lewis, Miss B Owen, R G Parry, Mrs L Roberts, R R Roberts,

YMDDIHEURIADAU:
G Jones, W R Parry.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB.
Neb.

CAEL COFNODION 15ed Tachwedd 2022. YN RHAI CYWIR: Cynnig Cyng R R Roberts, eilio Cyng R G Parry. Dim gwrthwynebiad.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.
Elusen William Bold.
Wedi rhoi ymateb fel a welir yng nghofnodion Tachwedd 15ed 2022.
Wedi ychwanegu cwestiynau ac yn ogystal ac atebion i`r cwestiynau blaenorol. Cyngor wedi ei dderbyn gan Un Llais Cymru. Ychwanegu y byddwn yn ysgrifennu at y Comisiwn Elusennau a`r posibilrwydd o gopiau i`r Heddlu a Rhyddid Gwybodaeth os na cheir ymateb llawn erbyn 14eg Chwefror 2023.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. FPL/2021/105. Cais llawn am adeilad Stabl Newydd ar dir ger:-
   Tyn Rhos, Trefor.
   Datblygiad uchod wedi ei dynnu`n ol.
   Derbyn.

2. HR/2022/1. Tynnu gwrych ar dir ger:-
   Bryn Tanchwy, Llynfaes.
   Y Cyngor ddipyn yn hollt ond pasiwyd i gefnogi.
   Cynnig Cyng D T Roberts, eilio Cyng Ms N Dafydd.

PENDERFYNIADAU.

3. FPL/2022/286. Cais llawn i newid defnydd y Padog presennol yn ardd ynghyd a chodi Garej arwahan a throi Garej presennol yn Swyddfa Cartref yn:-
   Tyn Rhos, Trefor.
   Gwrthodwyd. Nis oes gwybodaeth ddigonol wedi`i chyflwyno i arddangos na fydd y cais yn cael effaith ar yr annedd fforddiadwy presennol a`i gytundeb adran 106 yn groes i ofynion polisi TA115 cynllun datblygu lleol ar y cyd Ynys Mon a Gwynedd. Nid oedd unrhyw sylw gan y tri gan y Cynghorwyr Sirol.

4. FPL/2022/36. Cais llawn i addasu ac ehangu yr adeilad presennol fel rhan o`r cais cynllunio FPL/2020/234.
   Mon Island Dairy, 8,Parc Diwydiannol Mona, Bodffordd.
   Caniatad. Derbyn.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

5. Swyddog Cofrestru Etholiadol. Christine Hallsworth.
   Cofrester Etholwyr 2023. Ar gael nawr.
   Y Cyngor wedi gwneud cais ac wedi derbyn.

6. Swyddfa Refeniw a Budd-daliadau. Ella Jones.
   Praeseptau Cynghorau Cymuned / Thref 2023/24.
   Cyfarwyddwr Swyddogaeth Marc Jones. Band D 420.51.
   Y Clerc wedi rhoi amcangyfrif o beth fydd y balans ar ddiwedd y flwyddyn Mawrth 2023.
   Ar hyn o bryd nid oes dim byd mawr yn codi ond cyflog y Clerc a torri glaswellt y Fynwent Gymunedol. Wedi trafod pasiwyd y ychwanegu £2,000 yn fwy (£13,000 y flwyddyn) Cynnig Cyng J E Lewis, eilio Cyng R G Parry. (Unfrydol)

7. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.
   Tanysgrifio i wasanaeth casglu gwastraff gwyrdd 2023/24 bellach ar agor, ffi flynyddol o £35.00.
   Hannog i gofrestru ar lein cyn Chwefror 28ain 2023.
   Gwybodaeth pellach Lee Jones 01248 752129. Derbyn y wybodaeth.

8. Swyddog Polisi Rhian W Jones.
   Datganiad. Y Gymraeg ym Mon. Cyngor Sir yn ymateb i ddata cyfrifiad 2021. Siomi o ganlyniadau cyfrifiad 2021 dangos fod gan Gymru 24,000 yn llai o siaradwyr a degawd yn ol. Ynys Mon wedi gweld cwymp gallu siarad cymraeg yn 2021 oedd 55.8% cymharu a 57.2% yn 2011. Derbyn. Dim ond gobeithio bydd gwelllhad.

9. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.
   Datganiad. Cyngor Mon eisiau cefnogaeth Llywodraeth Genedlaethol am gais Porthladd Rydd. Byddai Porthlaoedd Rhydd yn tynnu`r rhwystrau masnachu ac yn darparu hawddfrientiau sy`n symleiddio`r ffordd gall bysnesau weithredu. Yn ol amcangyfrifon byddai`r Porthladd Rhydd yn denu £1 biliwn o fuddsoddiad wir angen fyddai`n cynnwys Swyddi Cyflogau uchel a thua 3,500 i 13,000 ar draws y rhanbarth. Cyngor wedi gofyn am gefnogaeth i ddwy Lywodraeth dros y cais uchelgeisiol. Cefnogaeth drwy https//angleseyfreeport.co.uk/home-w/ Derbyn y wybodaeth.

10. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.
    Anrhydeddu cyn Gynghorydd yn dilyn anghyfiawnder ofnadwy. Yn 2006 cafodd cyn Is-Bostfeister y Gaerwen, Noel Thomas ei garcharu ar gam am naw mis wedi iddo ddod i`r amlwg bod arian wedi mynd ar goll. Llynedd ar ol treulio dros 16 mlynedd yn brwydro i glirio`i enw - cafodd ei euogfarn ef a nifer o Is-Bostfeistri eraill ei diddymu wedi iddi ddod i`r amlwg mai nam gyda`r system TG oedd ar fai. Derbyn.

11. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.
    Cyngor Sir Ynys Mon yn cefnogi diwrnod hawliau`r Gymraeg 2022. Gallwch gefnogi ymgyrch ar y Cyfryngau Cymdeithiasol drwy ddilyn #MaeGenll-lawl neu fynd i wefan comisiynyddygymraeg.cymru

Mwy o wybodaeth Steffan Davies. Uned Gyfarthrebu 10248 752128. Derbyn.

12. Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) Swyddog Monitro. Lynn Ball.
Swyddi Gwag ar gyfer dau aelod o`r Cynghorau Tref/Chymuned ar Bwyllgor Safonau, Cyngor Sir Ynys Mon.
Ymgeiswyr Llwyddiannus oedd:-
Cyng Margaret Ann Thomas. Cyngor Tref Llangefni.
Cyng Iorwerth Roberts. Cyngor Cymuned Bryngwran.
Derbyn. Cyng Bodffordd yn hapus a`r dewisiad.

13. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.
Cymdeithas Celfydd gan Gogledd Cymru Oriel Mon.
Lansio Arddangosfa Gan yr Oriel Dydd Sadwrn 14eg, Ionawr 2023. Bydd yr Oriel ar agor o Ddydd Mawrth i Ddydd Sul rhwng 10 a 5. Mae`r mynediad am ddim. Ceir gwybodaeth 01248 724444. oriel@ynysmon.llyw.cymru / www.orielmon.org
Derbyn y wybodaeth. Cadw mewn golwg.

14. Cyfarwyddwr Addysg Sgiliau a Phobl Ifanc. Marc B Hughes.
Gostwng yr oed yn Ysgol Corn Hir i 3 oed ar y 1af Medi 2023.
Y Cyngor yn derbyn hyn ond nid ydyw yn addas i Bodffordd mae ganddynt Ysgol ei hunain.

15. Priffyrdd Dylan Hughes.
Palmentydd Stad Cae`r Delyn Bodffordd angen sylw y Cyngor Sir yn edrych ar y mater ac am drefnu gwneud y gwaith angenrheidiol drwy`r Gang Gymunedol.
Y Cyngor ddim yn hapus ar atebiad, dylai ei fod wedi ei gwblhau bellach.
Mae Dylan Hughes wedi derbyn swydd arall o fewn y Cyngor. Aled Roberts fyd y Swyddog newydd ac wedi cael ei ychwanegu i`r ebost yma.
Wedi cychwyn hyn gofynodd Cyng J E Lewis beth am y Sgwar ym Modffordd a`r llinellau gwyn ar groeslon Castell, Tynlon. Y Clerc i fynd ar ol y Swyddog newydd rwan.

GOHEBIAETH (ARALL)

16. Cyng Mrs L Roberts. Bagia Baw Cwn Bodffordd a Llynfaes.
Wedi cysylltu gyda Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.
R`oedd y Clerc yn anwybodol o hyn, pan gafodd alwad, ac nid oedd caniatad wedi ei rhoi mewn cyfarfod o`r Cyngor.
Mae hyn allan o drefn. Trafodwyd y mater a penderfynwyd i`r Clerc edrych i fewn a gweld faint fuasai y costiau o gael bins a bagiau. (Cafodd Cyng Mrs L Roberts amcangyfrif) Cynnig Cyng R R Roberts, eilio Cyng Mrs L Roberts. (Unfrydol)

17. Clercod a Cynghorau Uniongyrchol. Cylchgrawn. Derbyn. Cyng J E Lewis yn edrych drwyddo.

18. Valley Wings. Cylchgrawn. Derbyn. Cyng J Evans yn edrych drwyddo.

RHODDION.

19. Dim.

PLWYFOL.

20. Adolygu Cyflog y Clerc.
    Mae mwy o lawer o waith i'r Clerc nawr nag oedd dair blynedd yn ol. Bron bobpeth wedi mynd yn electronig sydd yn llyncu amser. Mae angen codi y cyflog yn sylweddol i gyfartalu a Dyfarniad Cyflog Cenedlaethol 2022/23. Oherwydd nad ydyw wedi ei wneud yn rheolaidd bod blwyddyn. Trwy Cynnig Cyng R G Parry ac eilio Cyng R R Roberts pasiwyd i godi y cyflog i £450.00 + Treth Incwm y mis (£5,400 + Treth Incwm y flwyddyn) gyda effaith syth. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad.

21. Torri Glaswellt Mynwent Gymunedol.
    Oherwydd costau ychwanegol mae yr amcangyfrif gan Mr Nigel Williams i fynnu £150.00 y flwyddyn, (£850.00 i £1,000.00 y flwyddyn) mae hyn yn cynnwys cadw'r lle y daclus a chadw yr eiddew dan rheolaeth. Oherwydd fod ei waith mor dda. Cynnig Cyng J E Lewis, eilo Cyng D T Roberts i dderbyn a codi i £1,000.00 y flwyddyn.

22. Mae gwiath wedi ei wneud a'r lon Capel Seion, Llandrygarn.

23. Mae gweithgareddau wedi ail gychwyn yn Rhyd Caradog, Llandrygarn. Rhoddwyd cwyn i'r Adran Cynllunio y Cyngor Sir am hyn yn Mehefin 2022 gan y Cyngor, a dywedwyd fod angen cynllunio arnynt ond fod mater yr afon a'r cae wedi ei basio i Gyfoeth Naturiol Cymru (ond ni chafwyd ymateb) Y Clerc i gysylltu ar Adran Cynllunio i weld beth sydd yn digwydd.
    (Cyng R R Roberts.)

MATERION ARIANNOL:

24. Cyfrif Rhedegol £15,431.06. (Praesept 3. £3,666,66)

    Mynwent Gymunedol £7,390.00. (Carreg £100.00 John Dyfed Williams. Abergele)(Carreg £100.00 Huw Gethin Jones.)

TALIADAU:

25. Clerc £500.00. (2 fis (Rhagfyr 22 a Ionawr 23) Gweinyddu (3 mis) £149.10. Treth Incwm 3 £187.50.

    Derbyn y taliadau a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng R R Roberts eilio Cyng Mrs L Roberts.

D Owen (Clerc)